

HEDDWCH BYD—O BA FFYNHONNELL?

Nodyn i'r siaradwr:

Dangoswch fod gwir heddwch yn bosib', er nad ydi dynoliaeth erioed wedi llwyddo i'w sicrhau. Pwysleiswch fod sail gwir heddwch yn cael ei amlygu yn y Beibl a sut mae bywydau Tystion Jehofah heddiw yn dystiolaeth o'r hyn bydd Duw yn ei wneud i sefydlu heddwch byd

LLUOEDD YN HIRAETHU AM HEDDWCH (5 mun.)

Fe gododd Rhyfel Byd I ymwybyddiaeth ym mhawb am angen heddwch byd

Daeth yr angen yn amlwg oherwydd gallu difaol arfau rhyfel modern

Gwnaeth Rhyfel Byd II a'r bygythiad niwclear yr angen yn fwy o fater brys hyd yn oed (g96 4/22 5-6)

Heddiw, mae pobl ym mhob man yn cael eu dychryn gan derfysgaeth rhyngwladol; anniddigrwydd sifil; a chynnwrf gwleidyddol, hiliol, crefyddol, a llwythol (g96 10/8 10; w87 5/15 11; tp 11)

Ledled y ddaear mae galw mawr am gydweithredu a heddwch byd (g96 10/8 9)

Mae'n amlwg i bawb mai'r unig ateb i anarchiaeth byd ydi heddwch byd

NI ALL YMDRECHION DYNION SICRHAU HEDDWCH BYD (15 mun.)

Nid pwrpas Jehofah ydi i ddyn gyfarwyddo'i gamre ei hun (Jer 10:23)

Mae bryd calon y ddynoliaeth bechadurus ar hunanoldeb a barusrwydd (Gen 8:21; Preg 8:9)

Rhaid i ymdrechion dyn fod mewn harmoni gyda bwriad a chyfarwyddyd Duw (Salm 146:3; Micha 6:8)

Wedi Rhyfeloedd Byd I a II, 'roedd arweinwyr byd yn siarad am heddwch

Fodd bynnag, mae addewidion wedi'u seilio ar gytundebau, Cynghrair y Cenhedloedd, Y Cenhedloedd Unedig, cynghreiriau gwleidyddol, cytundebau rhanbarthol rhwng cenhedloedd, a chynlluniau eraill oll wedi methu â rhoi terfyn ar wrthdaro arfog

Yn hytrach na chadw addewidion, mae amodau wedi gwaethygu'n gynyddol

Am 50 mlynedd 'nawr, mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cael ei ystyried yn brif obaith heddwch

Mae wedi methu â dod â heddwch, yn union fel ei ragflaenydd, Cynghrair y Cenhedloedd

Mae datganiadau gan arweinwyr byd yn dangos nad yw'n realistig disgwyl i'r Cenhedloedd Unedig na chyfundrefnau gwleidyddol eraill sicrhau heddwch byd (w95 10/1 4-5; g95 9/8 10; g91 9/8 9; w88 6/1 27-8; g87 6/22 13; w86 5/15 27; g86 1/22 29)

Mae hanes ymchwil dyn am heddwch a'i fethiant yn ein hatgoffa ni o'r hyn a ysgrifennodd y proffwyd Jeremeia am siom Jwda anffyddlon (Jer 8:15)

Mae'r holl fyd yn gorwedd yng ngafael yr un drwg, ac ni all heddwch ddod i ran y rhai sy'n gwrthod ymostwng i deyrnasu Jehofah; maen' nhw'n parhau i fod dan reolaeth a dylanwad Satan (Eseia 57:21; 1In 5:19)

Ac yntau'n dduw'r oes bresennol, mae Satan wedi dallu meddyliau anghredinwyr ac felly eu cadw mewn tywyllwch ysbrydol (2Cor 4:4)

Wedi ei ddisodli o'r nef i gyffiniau'r ddaear, mae e wedi bod yn camarwain yr holl genhedloedd—a'u gyrru bendramwnwgl i gyfeiriad rhyfel Armagedon (Dat 12:9; 16:14, 16)

TEYRNAS JEHOFAH YN LLYWODRAETHU FYDD YN SICRHAU HEDDWCH BYD (20 mun.)

Mae'r gallu gan Jehofah i waredu'r bydysawd rhag Satan y Diafol sy'n tarfu gymaint ar heddwch (Rhuf 16:20)

Cyfeiriodd y broffwydoliaeth gyntaf at addewid y Deyrnas am waredigaeth ac adfer heddwch (Gen 3:15)

Yn gynyddol rhagfynegodd Duw y camau y byddai'n eu cymryd i adfer heddwch i'r ddaear (Eseia 2:4; 9:6, 7; Dan 2:44)

Darparodd ei Fab yn bridwerth angenrheidiol a gosod sail Teyrnas heddwch drwy ei sefydlu'n frenin ar orsedd nefol (Salm 2:6; 110:1, 2; Lc 1:32, 33; Heb 2:14)

Mae e'n paratoi 144,000 o gyd-deyrnaswyr i wasanaethu yn y llywodraeth nefol i weinyddu bendithion heddwch ar gyfer y ddaear (Lc 22:28-30; Dat 5:9, 10; 14:1)

Mae datgelu trefn y Deyrnas yn mynd rhagddo'n dda; gellir ei weld yng nghyflwr ysbrydol adferedig etifeddion y Deyrnas, gyda miliynau eisoes yn mwynhau paradwys ysbrydol

Mae pregethu newyddion da'r Deyrnas yn fyd-eang wedi casglu pobl yn gymdeithas unedig sy'n addoli Jehofah dan amodau heddychlon (Salm 23:1-6; 29:11)

Mae hyd yn oed y rhai nad ydyn' nhw'n rhan o'r gynulleidfa Gristnogol yn cydnabod rhagoriaeth Teyrnas Jehofah yn llywodraethu [Crybyllwch ddatganiadau sylwedyddion bydol sy'n clodfori nodweddiad rhagorach sy'n amlwg ym mywydau Tystion Jehofah, fel y'u cyhoeddwyd nhw yn *The Watchtower* a'r *Awake!* Gweler *Index* o dan JEHOVAH'S WITNESSES/Statements by Others/qualities]

Mae'r hyn mae llywodraethu Teyrnas Dduw wedi'i gyflawni ymhlith ei weision ymroddedig yn rhagflas o fendithion sydd ynghadw i'r holl ddynoliaeth ufudd yn y byd newydd cyfiawn (Eseia 11:6-9)

Mae gelyniaeth Satan yn bodoli o hyd ar y ddaear oherwydd ei fod yn benderfynol o ddal ei afael ar ei reolaeth dros ddynoliaeth syrthiedig (Salm 2:1-3; Dat 12:12)

Bydd gelyniaeth yn terfynu cyn bo hir gyda dymchwel pob drygioni (Dat 20:1-3; 21:1)

O dan lywodraeth heddychlon 1,000 blynyddoedd y Deyrnas, caiff y ddynoliaeth ei hadfer i berffeithrwydd ar ddaear baradwys (1Cor 15:24-28)

HEDDWCH BYD YN RHYWBETH REAL AR GYFER Y DYFODOL AGOS (5 mun.)

Mae miliynau 'nawr yn iawn edrych ymlaen at obaith goroesi i fyd newydd cyflawn (Dat 7:14)

Bydd y drygionus yn darfod, tra bydd yr addfwyn yn mwynhau heddwch llawn (Salm 37:10, 11)

Yn ogystal â'i bod yn ymarferol, mae hefyd yn fater o frys ein bod ni 'nawr yn disgwyl wrth Jehofah, y Ffynhonnell nefol, am heddwch byd (Seff 2:1-3; Dat 21:1-4)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)